Newidiadau annisgwyl

Trosolwg

Mae pob un ohonom yn hoffi trefn arferol. Bydd plant yn aml yn dychwelyd at eu hoff bethau. Gall cyflwyno darnau newydd o offer yn lle hen rai annog y plant i ailddychmygu eu chwarae a defnyddio'r man dan sylw mewn ffordd wahanol!



Gweithgareddau

Peidiwch â dod â'r teganau a'r offer arferol allan. Yn hytrach, cyflwynwch ddeunyddiau neu ddarnau rhydd gwahanol. Dychmygwch gamu allan a dod o hyd i fan agored sy'n cynnwys 'pentwr' rhyfedd o eitemau anghyfarwydd sy'n disgwyl i chi eu harchwilio.
Gall newidiadau bach fel hyn drawsnewid yn llwyr sut y mae'r plant yn defnyddio ac yn gweld yr amgylchedd, gan darfu ar drefniadau arferol cyfarwydd a chreu cyfleoedd newydd i ddychmygu, bod yn greadigol a chydweithio.

Offer a syniadau

Crëwch fyd isel gan ddefnyddio cynfasau, blancedi, blychau neu gratiau i greu cuddfannau, twnelau a mannau cudd.

Cynigiwch ddeunyddiau naturiol megis boncyffion, dail, rhisgl, cerrig, moch coed a mwd ar gyfer chwarae penagored.

Defnyddiwch deiars, paledi neu estyll i ysbrydoli'r plant i gadw cydbwysedd, cludo ac adeiladu.

Cyflwynwch eitemau anarferol megis siwtcesys, basgedi a hen ffonau i greu anturiaethau mewn bydoedd hen a newydd.

Deilliannau dysgu

Yr allwedd yw peidio â chyfarwyddo'r chwarae yn rhy sydyn. Rhowch amser i'r plant ryfeddu, arbrofi a phenderfynu drostynt eu hunain beth allai'r deunyddiau fod.
Gall cyfyngu'r plant i un math o ddeunydd, e.e. 'dim ond brigau', feithrin chwarae dychmygus, o ganiatáu digon o amser.

Symud y dysgu yn ei flaen

- Anogwch y plant i symud y deunyddiau eu hunain, gan symud eitemau mwy o faint mewn parau neu dimau. Gall hynny fod o gymorth i ddatblygu sgiliau cyfathrebu a chydsymud gwell.